

Cydymdeimlad, Cofion a Chyfarchion

Gyda thristwch mawr y clywyd am farwolaeth Rhian Roberts (Llansannan). Estynnwn ein cydymdeimlad diffuant â Dewi a'r plant – Lowri, Lois a Hari, ynghyd â'i rhieni Trebor a Brenda Evans, a gweddill y teulu yn eich colled enbyd. Gweddiwn y bydd Duw yn gwarchod drosoch mewn ffordd arbennig ac y byddwch, ynghanol eich tristwch, yn profi cariad Duw yn gysur ac yn gymorth i chi.

Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf hefyd ag Eurgain Pierce (Llanefydd) a gweddill y teulu ym marwolaeth ei thad, Aerwyn Jones. Yn yr un modd, cydymdeimlwn ag Arthur Pierce (Cefn Meiriadog) a gweddill y teulu ym marwolaeth John Davies, hanner brawd iddo. Cofiw'n am eraill o'n plith sydd hefyd wedi cyfarfod â phrofedigaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf. Gweddiwn y bydd pob un ohonoch yn adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drosoch yn eich galar a'ch hiraeth am anwyliaid.

Anfonwn ein cofion cynhesaf at Lowri Vaughan (Saron) yn dilyn ei llawdriniaeth, ac at eraill o'n plith sydd heb fod cystal eu hiechyd y dyddiau hyn. Fe'ch cyflwynwn i ofal Duw gan weddio y cewch adferiad iechyd llwyr a buan ac y bydd Duw yn ei drugaredd yn rhoi nerth a chysur i chi yn eich angen.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Bob a Gretta Edwards (Groes) ar achlysur dathlu 6o mlynedd o fywyd priodasol.

Oherwydd y Ddeddf Gwarchod Data, dim ond y rhai sydd wedi rhoi caniatâd i ni gyfeirio atynt a nodir yma. Cysylltwch â Mair neu ysgrifennydd eich eglwys os ydych angen ffurflen ganiatâd arall, neu os byddwch, unrhyw bryd, yn dymuno newid y caniatâd a roddwyd gennych.

I ddod

- Gwasanaeth Carolau rhithiol i'r Fro nos Fercher, Rhagfyr 16eg.
- Gwasanaeth bore Nadolig i'r Fro ar ZOOM am 9.30.
- Oedfa ar y we bore Sul, Rhagfyr 27ain am 10.30 yng nghwmni Aneurin.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536

(Mair Owen, Bryn Goleu, Llansannan, Dinbych LL16 5LF)

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (9^{fed}), os gwelwch yn dda.

Llais Bro Aled



Dydd Sul, 29 Tachwedd 2020

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

'Roedd y Nadolig cyntaf yn un syml, peidiwch ag ofni os bydd Nadolig eleni'n syml hefyd.'

Dyma ddyfyniad Saesneg ar y we a dynnodd fy sylw'r wythnos ddiwethaf. A ninnau newydd dderbyn cyfarwyddiadau'r Llywodraeth ynglŷn â'r hyn a gawn ei wneud o gwmpas yr Ŵyl, sut ydych chi wedi ymateb? Siom, llawenydd, neu bryder o bosib? Gyda chymaint o sôn ar y cyfryngau a llawer o leisiau fel petaent mewn panig yn ceisio crafangu i ddal gafael ar draddodiadau ac arferion cyfarwydd y Nadolig, siawns nad yw'n ddrwg o beth i ni holi, beth mae'r Arglwydd am i ni ei ddysgu dros y cyfnod hwn?

Yn absenoldeb yr arferol – yr hyn sydd mor aml yn ein meddyliau yn 'gwneud 'Dolig yn 'Ddolig' – tybed onid oes cyfle o'r newydd i ni sylweddoli beth sy'n bwysig mewn gwirionedd? Un o'r cyfyngiadau sydd wedi parhau ers dechrau'r gwanwyn yw'r gwaharddiad ar dyrfaoedd i wyllo chwaraeon yn yr awyr agored, sy'n gryn rwystredigaeth i lawer o chwaraewyr a chefnogwyr. A chlywais un sylwebydd yn mynd mor bell â honni fod pêl-droed heb gefnogwyr yn ddim byd! Wel, tydi hynny ddim yn hollol gywir – mae pêl-droed heb gefnogwyr yn parhau i fod yr un gêm! Ond petai yna ddim pêl yna byddai'r sylwebydd yn llygad ei le – dydi pêl-droed heb bêl yn ddim byd! Yn yr un modd mae Nadolig heb y partïon, yr ymgynnull a'r gloddesta yn parhau i fod yn Nadolig, ond tynnwch Grist allan ac mae'r cyfan yn ddiystyr!

Felly tybed onid yw'r Arglwydd yn y cyfnod rhyfedd hwn yn dangos i ni mai'r oll yr ydym ei angen i wynebu beth bynnag a ddaw yw'r Brenin a roddwyd mewn preseb? Unig Fab Duw oedd yn barod i adael y gwynfyd a dod atom i'n hadfyd, er mwyn i bawb sy'n credu ynddo dderbyn bywyd tragwyddol. (Ioan 3:16)

I bawb sy'n fy adnabod, byddant yn gwybod fy mod yn eithriadol o hoff o'r Nadolig – amser hefo'r teulu, y carolau, addurno'r goeden a hyd yn oed y mins peis! Ac wrth gwrs, rhoddion gan Dduw yw'r cyfan, pethau i ni ddiolch amdanynt. Ond fel pob rhodd gan Dduw, mae posib eu camddefnyddio, neu roi gormod o bwyslais arnynt ar draul rhywbeth llawer pwysicach. Wrth droi'n golwg tuag at Nadolig 2020, beth am i ni ofyn i Dduw am ei gymorth er mwyn i ni edifarhau a throï at lesu

fel Arglwydd a Gwardwr? A thros yr wythnosau heriol nesaf, gweddiwn am nerth yr Ysbryd Glân i allu gwerthfawrogi'r Rhoddwr yn fwy na'r rhoddion, gan gofio fel y dywed yr emyn:

Mae Iesu'n fwy na'i roddion,
Mae Ef yn fwy na'i ras.

Rhodri

Cyhoeddiadau'r Fro

Sul yma – 29^{fed}

- **Gwasanaeth ZOOM (Llanefydd)** gyda'r Parch. John Pritchard am 10.00. Cysylltwch â Mair B. Williams (01745 540341/mairbeeche1@gmail.com) i gael y manylion cysylltu.
- **Ysgol Sul ar-lein**
Cynhelir Ysgol Sul ar ZOOM am 10.30. (Ewch i dudalen Facebook Eglwysi Bro Aled neu Fro Dinbych i gael mwy o fanylion.)
- **Oedfa fyw ar y we**
Cynhelir oedfa am 10:30 o dan arweiniad Rhodri. (Gallwch ymuno â'r oedfa o dudalen flaen gwefan Eglwysi Bro Aled. Os na allwch ymuno â ni bryd hynny, mae modd i chi wrando unrhyw amser wedi i'r darllediad ddod i ben.)
- **Sgwrs Bore Sul Bro Aled ar ZOOM**
Yn dilyn yr oedfa, croeso i chi ymuno am sgwrs ar ZOOM. (Cliciwch ar y llun 'Sgwrs Bore Sul Bro Aled' ar dudalen flaen gwefan Eglwysi Bro Aled i ymuno.)

Llun – 30^{ain}

- **Cwrs Alffa Ieuentid**
Bydd y Cwrs Alffa Ieuentid yn cyfarfod ar ZOOM.

Mawrth – 1^{af}

- **Cwrs Alffa Oedolion**
Bydd y Cwrs Alffa Oedolion yn cyfarfod ar ZOOM.

Mercher – 2^{il}

- **Grwpiau Tai** (ar ZOOM)

Sul – 6^{ed}

- **Parti Nadolig yr Ysgol Sul ar ZOOM** – Cynhelir Parti Nadolig yr Ysgol Sul ar ZOOM am 10.30. Dyma'r ddolen i gofrestru:
<https://docs.google.com/forms/d/e/1FAIpQLSfbWU-Vr7vtJoOEKP2NtB4XsUXEzX17Mnwd-AFmyN4A3VWb1A/viewform>
- **Oedfa fyw ar y we**
Cynhelir oedfa am 10:30 o dan arweiniad Rhodri. (Gallwch ymuno â'r oedfa o dudalen flaen gwefan Eglwysi Bro Aled. Os na allwch ymuno â ni bryd hynny, mae modd i chi wrando unrhyw amser wedi i'r darllediad ddod i ben.)

Llun – 7^{fed}

- **Cwrs Alffa Ieuentid** (ar ZOOM)

Mawrth – 8^{fed}

- **Cwrs Alffa Oedolion** (ar ZOOM)

Mercher – 9^{fed}

- **Cyfarfod Gweddi** (ar ZOOM) – Croeso i unrhyw un ohonoch ymuno â ni am 7:30 yr hwyr. (Holwch Rhodri i gael y manylion cysylltu ac/neu os oes gennych unrhyw geisiadau gweddi.)

Sul – 13^{eg}

- **Ysgol Sul ar-lein**

Cynhelir Ysgol Sul ar ZOOM am 10.30. (Ewch i dudalen Facebook Eglwysi Bro Aled neu Fro Dinbych i gael mwy o fanylion.)

- **Oedfa ar y we**

Cynhelir oedfa am 10:30 ac edrychwn ymlaen i gael cwmni y Parch. Hywel Meredydd. (Gallwch ymuno â'r oedfa o dudalen flaen gwefan Eglwysi Bro Aled. Os na allwch ymuno â ni bryd hynny, mae modd i chi wrando unrhyw amser wedi i'r darllediad ddod i ben.)

- **Sgwrs Bore Sul Bro Aled ar ZOOM** (gweler manylion Tachwedd 29^{ain})

Diolch

Yn dilyn ein hapêl ddiweddar, derbyniwyd llythyr diolch gan Llinos Roberts, Swyddog Ysgogi Eglwysi a Chodi Arian Cymorth Cristnogol. Dyma ran ohono:

“Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i aelodau a chyfeillion Eglwysi Bro Aled am eich rhodd hynod hael o £2,430.00 i'n partneriaeth gyda Rhaglen Fwyd y Cenhedloedd Unedig. Mae'r bartneriaeth hon yn golygu fod pob £1 a roddwyd gennych yn derbyn £67 yn ychwanegol gan y Rhaglen, gan wneud eich rhodd yn werth £165,240.00 tuag at y gwaith!”

Fe gofiwch fod Rhaglen Fwyd y Cenhedloedd Unedig (WFP – World Food Programme) yn ceisio mynd i'r afael â newyn ar draws y byd ac nid yn unig yn darparu bwyd i'r rhai sydd mewn angen ond hefyd yn ceisio grymuso'r bobl hynny i gynhyrchu eu bwyd eu hunain ar gyfer y dyfodol gan roi cefnogaeth iddyn nhw mewn meysydd tebyg i reoli adnoddau naturiol, cynhyrchu cynydau, cynhyrchu da byw, cynaeafu dŵr ac i gychwyn busnesau bach. Felly, diolch o galon i chi i gyd am eich haelioni er ceisio sicrhau cariad, urddas, cydraddoldeb a chyfiawnder i rai o gymunedau mwyaf bregus ein byd.